



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth  
The Subordinate Legislation Committee**

**Dydd Mawrth, 11 Mawrth 2008  
Tuesday, 11 March 2008**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau  
Introduction, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest
- 4 Offerynnau ac Offerynnau Drafft na Ffydd y Cynulliad yn cael ei Wahodd i Roi Sylw  
Arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog Rhif 15.2 ac Offerynnau sy'n Agored i gael eu  
Dirymu yn unol â Phenderfyniad gan y Cynulliad (Y Weithdrefn Negyddol)  
Instruments and Draft Instruments in respect of which the Assembly is not Invited to Pay  
Special Attention under Standing Order No. 15.2 and Instruments Subject to Annulment  
Pursuant to a Resolution of the Assembly (Negative Procedure)
- 5 Unrhyw Fater Arall  
Any Other Business
- 6 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf  
Date of Next Meeting

Cofnodir y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y pwyllgor. Yn ogystal,  
cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

These proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee.  
In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

**Aelodau'r pwyllgor yn bresennol**  
**Committee members in attendance**

Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats
Alun Davies	Llafur Labour
Andrew R.T. Davies	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
David Lloyd	Plaid Cymru (Cadeirydd y Pwyllgor) The Party of Wales (Committee Chair)
Sandy Mewies	Llafur (yn dirprwyo ar ran Irene James) Labour (substitute for Irene James)

**Swyddogion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn bresennol**  
**Assembly Parliamentary Service officials in attendance**

Anna Daniel	Clerc Clerk
Gwyn Griffiths	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Joanest Jackson	Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol Assistant Legal Adviser
Olga Lewis	Dirprwy Glerc Deputy Clerk

*Dechreuodd y cyfarfod am 8.16 a.m.*  
*The meeting began at 8.16 a.m.*

**Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau**  
**Introduction, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest**

[1] **David Lloyd:** Croesawaf fy nghyd-Aelodau, swyddogion a'r cyhoedd, a fydd yn llifo i mewn yn ddiweddarach, i gyfarfod Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth y Cynulliad. **David Lloyd:** I welcome my fellow Members, officials and the public, who will flood in later on, to the meeting of the Assembly's Subordinate Legislation Committee.

[2] Os bydd argyfwng, bydd y tywyswyr yn eich arwain at yr allanfa agosaf. Gellir defnyddio clustffonau i gael cyfieithiad ar y pryd ac i addasu lefelau'r sain, a gall y tywyswyr ddangos ichi sut i'w defnyddio os bydd anhawster. Rhaid diffodd ffonau symudol yn llwyr. Mae'r cyfieithiad ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ar sianel 1 a gellir clywed cyfraniadau yn yr iaith wreiddiol ar sianel 0. If there is an emergency, the ushers will lead you to the nearest exit. Headsets can be used to hear the interpretation and to alter the sound levels, and ushers can show you how to use those if you have difficulty. You must switch off mobile phones completely. Interpretation from Welsh to English is available on channel 1 and you can hear contributions in the original language on channel 0.

[3] Yr ydym wedi derbyn ymddiheuriad oddi wrth Irene James, ac mae Sandy Mewies yn dirprwyo ar ei rhan. Felly, croeso i Sandy. Gwelaf fod pawb arall yma. We have received an apology from Irene James, and Sandy Mewies is substituting for her. Welcome, Sandy. I see that everyone else is present.

8.17 a.m.

**Offerynnau ac Offerynnau Drafft na Ffydd y Cynulliad yn cael ei Wahodd i Roi Sylw Arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog Rhif 15.2 ac Offerynnau sy'n Agored i gael eu Dirymu yn unol â Phenderfyniad gan y Cynulliad (Y Weithdrefn Negyddol)**

**Instruments and Draft Instruments in respect of which the Assembly is not Invited to Pay Special Attention under Standing Order No. 15.2 and Instruments Subject to Annulment Pursuant to a Resolution of the Assembly (Negative Procedure)**

- [4] **David Lloyd:** Mae Joanest wedi bod yn craffu ar SLC118, Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008, ac ar SLC119, Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2008. A oes gennych unrhyw beth i'w gyhoeddi, Joanest?
- David Lloyd:** Joanest has been scrutinising SLC118, the Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2008, and SLC119, the Town and Country Planning (General Permitted Development) (Amendment) (Wales) Order 2008. Do you have anything to announce, Joanest?
- [5] **Ms Jackson:** Nid oes dim i'w ychwanegu at yr un o'r adroddiadau.
- Ms Jackson:** I have nothing to add to either of the reports.
- [6] **David Lloyd:** A oes gan unrhyw un sylwadau? Gwelaf nad oes. Mae pawb yn hapus i dderbyn y rhain, felly.
- David Lloyd:** Does anyone have a comment to make? I see that they do not. Therefore, everyone is happy that these are carried.
- [7] Mae Gwyn wedi bod yn craffu ar SLC120, Rheoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Diwygio) (Cymru) 2008, ac SLC121, Rheoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2008. A oes gennych sylwadau ychwanegol, Gwyn?
- Gwyn has been scrutinising SLC120, the Education (Assisted Places) (Amendment) (Wales) Regulations 2008, and SLC121, the Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) (Amendment) (Wales) Regulations 2008. Do you have anything to add, Gwyn?
- [8] **Mr Griffiths:** Rheoliadau blynyddol sy'n addasu lefel incwm i fod yn gymwys ar gyfer y taliadau hyn yw'r rhain. Nid oes dim arbennig gennyf i'w ddweud amdanynt.
- Mr Griffiths:** These are just annual regulations that adjust the level of income to qualify for the payments. I have nothing particular to say about them.
- [9] **David Lloyd:** Diolch, Gwyn. A oes sylwadau? Gwelaf nad oes.
- David Lloyd:** Thank you, Gwyn. Are there any comments? I see that there are not.
- [10] Mae Joanest wedi bod yn craffu ar SLC123, Rheoliadau Mêl (Cymru) (Diwygio) 2008.
- Joanest has been scrutinising SLC123, the Honey, (Wales) (Amendment) Regulations 2008.
- [11] **Ms Jackson:** Nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu.
- Ms Jackson:** I have nothing to add.
- [12] **David Lloyd:** Melys iawn. A oes unrhyw sylwadau?
- David Lloyd:** Short and sweet. Are there any comments?
- [13] **Eleanor Burnham:** A yw'r
- Eleanor Burnham:** Do these regulations

rheoliadau hyn yn ymwneud â'r argyfwng sydd yn y diwydiant? Mae problemau mawr—yr wyf am gael eglurhad. Mae pryder mawr ynghylch firysau a gwenyn o dramor yn achosi difrod i'r gwenyn brodorol.

[14] **David Lloyd:** Gweithwyr tramor o weny, ie?

[15] **Eleanor Burnham:** Nid wyf yn siŵr—gofynnwch i William Graham; yr oedd yn trafod y mater pwysig hwn yr wythnos diwethaf. Yr wyf yn codi'r mater gan fod gennyf ryw ddiddordeb ynddo.

[16] **David Lloyd:** Diolch, Eleanor. A oes gennych sylw ar y mater hwn, Joanest?

[17] **Ms Joanest:** Mae hwn yn cywiro mân wall drafftio. Nid yw'n ymwneud â phryderon.

[18] **David Lloyd:** Symudwn ymlaen. Mae Gwyn wedi bod yn craffu ar SLC124, Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2008, ac ar SLC125, Rheoliadau Rheoli Mangroedd Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2008. Gwyn, a oes gennych unrhyw beth i'w ychwanegu at yr adroddiad sydd gerbron?

[19] **Mr Griffiths:** Oes. Yn fyr, mae'r ddau offeryn yn ymateb i sylwadau a wnaed gan y pwyllgor yn ei adroddiadau blaenorol. Mae'r cyntaf yn ail-wneud rheoliadau â llawer o wallau ynddynt. Mae'r ail yn cywiro un gwall mewn set o reoliadau. Mae'n dangos bod y Llywodraeth yn gwneud yr hyn mae'n addo wrth ymateb i'n hadroddiadau.

[20] **David Lloyd:** Mae'n gwrandao ar syniadau'r pwyllgor hwn. Diolch, Gwyn. A oes sylwadau? Gwelaf nad oes.

8.20 a.m.

### **Unrhyw Fater Arall Any Other Business**

[21] **David Lloyd:** Mae'r unig fater sydd gennyf i'w godi'n ymwneud â'r cyfarfod diwethaf, lle penderfynwyd dechrau ar y

have anything to do with the crisis in the industry? There are major problems—I just want clarification. There is grave concern about viruses and bees from abroad causing devastation among native bees.

**David Lloyd:** The issue is one of migrant worker bees, is it?

**Eleanor Burnham:** I am not sure. Ask William Graham; he mentioned this important subject last week. I raise the matter because I have some interest in it.

**David Lloyd:** Thank you, Eleanor. Do you have anything to say about the matter, Joanest?

**Ms Joanest:** This is just a matter of correcting minor errors in drafting. It has nothing to do with the concerns.

**David Lloyd:** Let us move on. Gwyn has been scrutinising SLC124, the Street Works (Registers, Notices, Directions and Designations) (Wales) (No 2) Regulations 2008, and SLC125, the Control of School Premises (Wales) (Amendment) Regulations 2008. Gwyn, do you have anything to add to the report before us?

**Mr Griffiths:** Yes. Briefly, these two instruments are a response to observations made by the committee in previous reports. The first remakes regulations that contained many errors. The second corrects one mistake contained in a set of regulations. It shows that the Government does what it promises to do in response to our reports.

**David Lloyd:** It is listening to this committee's ideas. Thank you, Gwyn. Are there any comments? I see that there are none.

**David Lloyd:** The only matter that I have to mention concerns our previous meeting, at which we resolved to commence scrutiny

gwaith craffu ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu A Sgiliau (Cymru) 2008. Cytunodd y pwyllgor i wahodd y Llywodraeth i roi tystiolaeth. Mae'r gwahoddiad wedi mynd at John Griffiths, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, neu'i gynrychiolydd, i roi rhagor o wybodaeth am ddarpariaethau'r Mesur hwn o ran is-ddeddfwriaeth a'r rhesymeg y tu ôl i'r dewis o weithdrefn sy'n cynnwys y darpariaethau hynny. Bydd y Dirprwy Weinidog, neu bwy bynnag a fydd yn ei gynrychioli, yn darparu papur ysgrifenedig ac yn ymddangos gerbron y pwyllgor ar 8 Ebrill. Fe'ch hysbysaf o hynny er gwybodaeth.

work on the Proposed Learning and Skills (Wales) Measure 2008. We agreed to invite the Government to give evidence. The invitation has gone to John Griffiths, the Deputy Minister for Skills, or his representative, to provide us with more information about the provisions of this Measure with regard to subordinate legislation and the rationale behind the choice of procedure by which those provisions will be made. The Deputy Minister, or whoever represents him, will provide a written paper and appear before the committee on 8 April. I inform you of this for your information.

[22] A oes gan Aelodau unrhyw fater arall? Mae pawb yn dawedog.

Do Members wish to raise any other matters? I see that everyone is silent.

8.21 a.m.

### **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** **Date of Next Meeting**

[23] **David Lloyd:** Dyddiad y cyfarfod nesaf yw 8 Ebrill. Diolch ichi am eich presenoldeb, a diolch hefyd i'r cyfieithwyr.

**David Lloyd:** The date of the next meeting is 8 April. Thank you for attending, and thanks also to the translators.

*Daeth y cyfarfod i ben am 8.21 a.m.*  
*The meeting ended at 8.21 a.m.*